# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**Y Cynghorydd M.J Evans**

**Ward: Pencoed a Phenprysg**

## Plaid: Plaid Lafur Cymru

Mae’r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis **Mai 2024**. Fe’i darperir er gwybodaeth i bob etholwr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw’r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**Rôl a Chyfrifoldebau**

Cefais fy ethol ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Pencoed a Phenprysg ar 05/05/2022.

Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y Cyngor eleni drwy fod ar sawl pwyllgor, gan gynnwys: -

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 1
Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 3
Pwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet
Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned

Rwyf hefyd yn gynrychiolydd ar ran corff allanol: - Bwrdd Cadwraethwyr Coety Walia.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi mynegi 42 o ymholiadau etholwyr yn ffurfiol gyda’r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i’r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i’w datrys.

Bydd ansawdd bob amser yn bwysicach na maint, er mwyn ysgogi cyflawni.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau bod fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward yn cael ei chynnal.

**Gweithgarwch yn yr Etholaeth**

Rwy’n parhau i feithrin perthynas waith broffesiynol effeithiol gyda’r holl breswylwyr, busnesau, cyrff a sefydliadau perthnasol ac rwyf wedi mwynhau cymryd rhan a chyfrannu at nifer o ddadleuon, trafodaethau, cyfarfodydd, cymorthfeydd preswylwyr a theithiau cerdded ledled y Dref.

Dyma rai enghreifftiau o’r pynciau mwyaf perthnasol ac emosiynol rwyf wedi eu trafod,

wedi cyfrannu atynt ac ymgysylltu â nhw: -

Newid Pont Rheilffordd Penprysg. (Parhaus).

Materion parcio ledled y dref. (Parhaus).

Troseddu ac Ymddygiad gwrthgymdeithasol. (Parhaus drwy Strydoedd Mwy Diogel.)

Cyfleusterau, darpariaethau a meysydd clybiau chwaraeon. (Parhaus).

Trafnidiaeth a Chyfleusterau Addysgol.

Gwelliannau i ardaloedd chwarae a dau brosiect uwchraddio parciau chwarae Beechwood Heol Ewenni Pencoed a Chae Hamdden Pencoed Ffordd Felindre Pencoed.

Mae gennyf gysylltiadau â Chyngor Cymuned Llangrallo Uchaf ac rwy'n mynychu cyfarfodydd misol pan fyddaf ar gael.

Mae hyn wedi rhoi cyfle i mi wrando, ymgysylltu a thrafod materion sy'n peri pryder.

**<u>Mentrau a Gweithgareddau Arbennig</u>**

Rwy'n Llywodraethwr Cymunedol yn Ysgol Gynradd Croesty ac Ysgol Gyfun Pencoed.

Aelod o Gyngor Tref Pencoed ers 2017.

Rwy'n cwrdd â chynrychiolwyr o'r Heddlu a chyrff/sefydliadau perthnasol eraill drwy Strydoedd Mwy Diogel.

**<u>Gweithgareddau/Materion Eraill</u>**

Rwy'n mynd ar deithiau cerdded rheolaidd drwy'r Dref i ganfod unrhyw bryderon / materion y mae angen eu cyfeirio.

Rwyf hefyd yn parhau i gael trafodaethau / negeseuon e-bost / galwadau ffôn i wrando a mynd i'r afael ag anghenion y gymuned.

Rwyf wedi cynnal cymorthfeydd yn Llyfrgell Pencoed i drigolion ddod i gael sgwrs a mynegi eu pryderon dros baned.

Cymerais ran hefyd mewn cymorthfeydd i breswylwyr yn fy rôl fel Cynghorydd Tref Pencoed.

Y Cynghorydd M.J Evans (Melanie Jayne Evans): Dyddiad: 25/07/24